**LC343**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2001**

## Y cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu'r holl reoliadau blaenorol ynghylch tanwyddau awdurdodedig ac yn pennu tanwyddau sy'n danwyddau awdurdodedig ar hyn o bryd at ddibenion Deddf Aer Glân 1993.

Mae nifer o danwyddau a oed dyn danwyddau awdurdodedig cynt wedi'u tynnu oddi ar y rhestr.

Er gwaethaf y diddymu, mae tanwyddau sydd wedi'u gweithgynhyrchu cyn 17 Rhagfyr 2001 ac a awdurdodwyd gan y rheoliadau y mae'r rheoliadau hyn yn eu diddymu yn gallu cael eu defnyddio.

Deellir bod rheoliadau tebyg yn cael eu gwneud ar gyfer Lloegr.

## Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi'u gwneud fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Er hynny, nodir bod y copi o'r Rheoliadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor (a dywedir mai hwnnw yw'r fersiwn sydd wedi'i gyflwyno gerbron y Cynulliad) yn cynnwys nifer o wallau teipograffyddol y bydd angen eu cywiro, os ydynt i'w gel dyn y ddogfen a gyflwynwyd. Dyma hwy –

Nid yw'r dyddiad dod i rym wedi'i gwblhau, nac ar frig y Rheoliadau nac yn Rheoliad 1(2). O gofio telerau Rheoliad 3(2) cymerir mai 17 Rhagfyr 2001 yw'r dyddiad arfaethedig.

Yn Rheoliad 3(2) ceir bachau petryal y mae angen eu dileu.

Yn y ddau destun, dylai paragraff (3)(a) yn Atodlen 1 ddechrau â llythyren fach.

**Sylwadau Cyffredinol**

Nodir mai "Ireland" sydd wedi'i ddefnyddio ym mharagraff 5 o destun Cymraeg Atodlen 1, ond "Iwerddon" ym mharagraff 11.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

30 Hydref 2001